

Trosolwg Athrawon

Beth yw Wythnos Ddŵr Oxfam?

Yn ôl am y bedwaredd flwyddyn, mae Wythnos Ddŵr boblogaidd Oxfam wedi'i gynllunio i helpu pobl ifanc i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar a chysylltiedig drwy gymryd camau deallus, cyfrifol ac ystyrlon.

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau meddwl drwy ddysgu am faterion dŵr o amgylch y byd, ac yna mae nifer yn dewis gweithredu ar yr hyn maent wedi'i ddysgu. Dros y dair blynedd ddiwethaf, mae ysgolion a chymunedau wedi codi bron £58,000 ar gyfer prosiectau dŵr Oxfam ym Mali a Niger a Liberia ac wedi cyflwyno negeseuon ymgyrchu i'r Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol y Deyrnas Unedig a hyd yn oed i Rif 10 Stryd Downing yn gofyn i'r llywodraeth helpu i leihau diffyg sicrwydd dŵr.

Eleni, bydd Wythnos Ddŵr Oxfam yn cefnogi prosiectau dŵr, glanweithdra a hylendid Oxfam ledled y byd, ble bynnag mae'r angen mwyaf.

Mae ysgolion wedi dweud wrthym fod Wythnos Ddŵr Oxfam yn ffordd dda o ddiweddu tymor yr haf. Os nad yw'r dyddiadau hyn yn ddelfrydol ar gyfer eich ysgol chi, gallwch drefnu eich Wythnos Ddŵr Oxfam ar gyfer pa bryd bynnag sy'n gweithio orau i chi.



Wythnos Ddŵr Oxfam

7-11 Gorffennaf

(Cymru a Lloegr)

2- 6 Mehefin

(Yr Alban)

Pam Dŵr?

Mae dŵr yn hawl sylfaenol i bob unigolyn yn y byd, ac eto mae llawer o bobl heb fynediad at y dŵr maent ei angen.

Mae Oxfam wedi bod yn cynorthwyo eraill i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr ers dros 50 mlynedd: efallai yr hoffech ddangos ein llinell amser yn yr adnoddau atodol i'ch disgyblion (Llinell amser ar gael yn Saesneg yn unig).

Cyflwyniad i'r Wythnos Ddŵr

Rhennir Wythnos Ddŵr Oxfam yn bum rhan:

1. Cyflwyniad
2. Dysgu
3. Meddwl
4. Gweithredu
5. Adnoddau atodol

Mae'r adnoddau rhagarweiniol yn helpu disgyblion i:

Wybod bod dŵr yn hawl dynol sy'n cael ei chydnabod gan y Cenhedloedd Unedig, yn ogystal â deall yr angen am ddŵr a rennir gan bobl.

- Bod yn ymwybodol na chaiff nifer o bobl yr hawl hon, sy'n golygu nad oes ganddynt sicrwydd dŵr.

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser
Ffilm rhagarweiniol a sioe sleidiau	Mae'n cyflwyno Wythnos Ddŵr Oxfam, gan ysbrydoli disgyblion i ddysgu mwy am ddiffyg sicrwydd dŵr a gweithredu.	10-20munud
<i>Saesneg yn unig – 'Water for Life'</i> Gweithgareddau (rhagarweiniol dŵr i fyw)	Mae'n cyflwyno disgyblion i'r angen a rennir am ddŵr ym mywydau pawb, ym mhob man. Gweithgareddau ymarferol i rai o bob oed, gan gynnwys taith synhwyrdd i ddisgyblion iau. Gweithgareddau dyddiadur dŵr a sioe sleidiau i bwysleisio pa mor bwysig yw dŵr mewn bywyd bob dydd.	40-50 mins Noder: mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys rhywfaint o waith cartref

Dysgu Meddwl Gweithredu

Mae adnoddau Wythnos Ddŵr Oxfam yn dilyn trefn 'Dysgu, Meddwl, Gweithredu' fel bod disgyblion yn gallu cael dealltwriaeth drylwyr o faterion diffyg sicrwydd dŵr o amgylch y byd. Mae'r adnodd yn gweithio orau os defnyddir gweithgareddau o bob un o dair rhan y drefn:

Dysgu: Adnoddau llawn gwybodaeth a hygyrch yn galluogi disgyblion i ddysgu am achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr gan ddefnyddio astudiaethau achos o brosiectau Oxfam o amgylch y byd.

Meddwl: Rhan hanfodol o'r Wythnos Ddŵr, caiff disgyblion eu hannog i feddwl yn feirniadol ynglŷn â'r hyn y gall unigolion, cymunedau, sefydliadau a llywodraethau ei wneud i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr. Mae'r adnoddau *Meddwl* hefyd yn cynnwys astudiaeth achos o brosiect Wythnos Ddŵr diweddar yn Liberia.

Act: Mae disgyblion yn darganfod sut mae Oxfam a chymunedau lleol wedi gweithredu i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr, ac yna gallant ddewis eu camau eu hunain i wneud gwahaniaeth. Gallant ddewis cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgyrchu 'Gall Dŵr Newid Bywydau' neu godi arian ar gyfer ein prosiectau WASH (dŵr, glanweithdra a hylendid).

Adnoddau Atodol: Deunyddiau anghenion addysgol arbennig ac amrywiaeth o adnoddau o'r llynedd, gan gynnwys ffotostoriau, tasgau amgyffred a gemau.

Adnoddau dysgu

Cyn penderfynu pa gamau i'w cymryd, bydd cyfle i ddisgyblion ddeall ystyr diffyg sicrwydd dŵr, ei achosion a'i symptomau.

Mae adnoddau dysgu yn helpu disgyblion i:

- Ddeall rhai o achosion diffyg sicrwydd dŵr, megis newid yn yr hinsawdd a gwrthdaro.
- Enwi rhai o symptomau diffyg sicrwydd dŵr.
- Gwneud cysylltiadau rhwng symptomau ac achosion.
- Dysgu am faterion diffyg sicrwydd dŵr drwy astudiaethau achos mewn sawl gwlad.

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser
Clipiau ffilm <i>Dysgu</i> x 5 (oddeutu 3 munud yr un) – <i>Saesneg yn unig</i> , a dwy sioe sleidiau (Cymraeg)	Mae'r sioe sleidiau gyntaf yn cyflwyno'r disgyblion i ystyr diffyg sicrwydd dŵr. Mae'r ail sioe sleidiau yn helpu'r disgyblion i adnabod achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr. Mae'r clipiau ffilm yn ymdrin â phedwar mater sy'n rhoi pobl mewn perygl: gwrthdaro, sychder, isadeiledd dŵr gwael (dau glip) a llifogydd.	30-40 munud

<p>Gweithgareddau <i>Dysgu</i> i ddisgyblion</p>	<p>Mae'r daflen waith <i>Dysgu</i> i ddisgyblion yn arwain dealltwriaeth disgyblion o'r ffilmiau ac yn eu helpu i wneud cysylltiadau rhwng achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr.</p> <p>Mae'r <i>goeden diffyg sicrwydd dŵr: rhan 1</i> yn helpu disgyblion i adnabod achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr.</p>	<p>I'w defnyddio yn ystod y clipiau ffilm</p> <p>30-40 munud</p>
<p><i>Saesneg yn unig</i> – 'Learn Country Information'</p> <p>Gwybodaeth am y gwledydd</p>	<p>Gwybodaeth gefndir i athrawon am y gwledydd sy'n ymddangos yn y clipiau ffilm: Niger, Uganda, Pacistan, Tajikistan, Y Swdan a Chad.</p>	

Adnoddau meddwl

Rhan hanfodol o'r Wythnos Ddŵr, bydd cyfle i'ch disgyblion gael meddwl yn feirniadol am yr atebion i ddiffyg sicrwydd dŵr.

Mae adnoddau Meddwl yn helpu disgyblion i:

- Identify short and long-term solutions to water vulnerability.
- Know what the terms humanitarian emergency, development and campaigning mean.
- Think critically about the impact of short-term and long-term responses.
- Find out about water vulnerability in south-east Liberia.

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser
Clipiau ffilm <i>Meddwl</i> x 5 (oddeutu 3 munud yr un) – <i>Saesneg yn unig, a sioe sleidiau (Cymraeg)</i>	Mae'n cyflwyno ymatebion tymor byr a hirdymor i ddiffyg sicrwydd dŵr. Mae'r pum clip ffilm yn dangos Oxfam yn delio ag achosion diffyg sicrwydd dŵr sydd wedi'u cyflwyno yn y clipiau ffilm <i>Dysgu</i> .	30-40 munud
Gweithgareddau <i>Meddwl</i>	Mae'r daflen waith <i>Meddwl</i> i ddisgyblion yn arwain dealltwriaeth y disgyblion o'r ffilmiau a sut mae Oxfam yn gweithio ar y materion hyn. Mae'r <i>goeden diffyg sicrwydd dŵr: rhan 2</i> yn galluogi disgyblion i ychwanegu atebion at eu coeden materion. <i>Diagram Venn</i> ynglŷn â chymorth dyngarol a datblygu ac ymgyrchu Oxfam.	I'w defnyddio yn ystod y clipiau ffilm 10-20 munud 10-20 munud
Astudiaeth achos Liberia	<i>Astudiaeth achos Liberia</i> : ffotostori ynglŷn â sut mae ffermwyr reis yn newid eu bywydau drwy brosiect dyfrhau Oxfam. Gall disgyblion ddefnyddio'r hyn y byddant wedi ei ddysgu i baratoi eu coeden diffyg sicrwydd dŵr eu hunain.	30-40 munud

Saesneg yn unig Gwybodaeth gefndirol i athrawon am y gwledydd sy'n
– 'Think Country ymddangos yn y clipiau ffilm: Liberia, Uganda,
Information' Zimbabwe, Ethiopia, Haiti, Chad ac Angola.
Gwybodaeth am
wledydd

Adnoddau gweithredu

Bydd disgyblion yn darganfod sut mae Oxfam a chymunedau lleol wedi gweithredu i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr ac yna mae'n bosibl iddynt ystyried ffyrdd y gallant wneud gwahaniaeth i gymunedau sy'n dioddef diffyg sicrwydd dŵr eleni.

Mae adnoddau gweithredu yn helpu disgyblion i:

- Ddeall rôl cymunedau sy'n dioddef diffyg sicrwydd dŵr ac Oxfam wrth oresgyn problemau dŵr.
- Dysgu am effaith gweithredu blaenorol yr Wythnos Ddŵr ym Mali, Niger a Liberia.
- Meddwl yn greadigol a thrafod syniadau ar gyfer gweithredu.
- Gosod amcanion, cynllunio a threfnu tasgau.
- Cymryd camau a'u gwerthuso.

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser
Clipiau ffilm <i>Gweithredu x 2</i> (<i>Saesneg yn unig</i>) a sioe sleidiau (<i>Cymraeg</i>)	Mae'n dangos i'r disgyblion effeithiau cadarnhaol gweithredu blaenorol yr Wythnos Ddŵr yn Niger, Mali a Liberia.	15-20 munud
Gweithgareddau <i>Gweithredu</i> .	Mae disgyblion yn darganfod sut mae Oxfam a chymunedau sy'n dioddef diffyg sicrwydd dŵr wedi gweithredu i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr drwy lunio cadwyn diffyg sicrwydd dŵr y dosbarth.	25-30 munud
	Mae disgyblion yn defnyddio gweithgaredd graddio diemwnt (<i>Saesneg yn unig</i>) i flaenoriaethu eu syniadau gweithredu.	15-20 munud
	Mae disgyblion yn cwblhau cynllun gweithredu (<i>Saesneg yn unig</i>) disgyblion sy'n rhannu eu tasgau yn rhannau gwahanol.	20 munud

<p><i>Saesneg yn unig</i> – 'Fundraising Guide'</p> <p>Canllaw Codi Arian</p>	<p>Mae'n rhoi digon o syniadau i ddisgyblion ynglŷn â gweithgareddau codi arian, ac mae'n esbonio sut y bydd codi arian ar gyfer yr Wythnos Ddŵr yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau WASH (dŵr, glanweithdra a hylendid) Oxfam ledled y byd.</p>	
<p><i>Saesneg yn unig</i> - 'Campaigning Guide'</p> <p>Canllaw Ymgyrchu</p>	<p>Mae'n rhoi syniadau i ddisgyblion ynglŷn â gweithgareddau ymgyrchu ac mae'n esbonio sut y gall ymgyrchu ar gyfer yr Wythnos Ddŵr helpu i leihau'r diffyg sicrwydd dŵr.</p>	
<p><i>Saesneg yn unig</i> - 'Pupil Evaluation'</p> <p>Gwerthuso disgyblion.</p>	<p>Mae'n helpu disgyblion i bennu llwyddiant y gweithgaredd maent wedi'i ddewis, a gwerthuso'r hyn maent wedi'i ddysgu.</p>	15 munud

Defnyddio einhadnoddau dysgu

Sioeau Sleidiau

Bydd gwybodaeth newydd yn ymddangos ar y rhan fwyaf o'r sleidiau pan fyddwch yn clicio. Mae'r cylch glas yn y gornel dde ar y gwaelod yn dangos bod y sleid wedi'i gwblhau.

Amser

Mae'r adnoddau dysgu yn addasadwy, yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael, ond maent yn gweithio orau os defnyddir cyfuniad o weithgareddau Dysgu, Meddwl a Gweithredu. Rydym yn argymhell neilltuo o leiaf dwy awr ar gyfer y gweithgareddau dysgu a meddwl, ac o leiaf awr ar gyfer cynllunio gweithredu – er ein bod yn awgrymu neilltuo mwy o amser os gellir.

Pryd

Ceisiwch gwblhau'r gweithgareddau dysgu a meddwl yn ystod yr wythnosau sy'n arwain at yr Wythnos Ddŵr, fel y gall y disgyblion drefnu eu gweithredoedd codi arian ac ymgyrchu yn ystod yr wythnos ei hun. Fodd bynnag, gallwch gynnal yr Wythnos Ddŵr ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i chi a'ch ysgol.

Sut

Anfonwch unrhyw arian a godir i Oxfam gan ddefnyddio'r ffurflenni yn y daflen codi arian. Tynnwch sylw eich AS lleol at faterion yr hoffech iddynt weithredu arnynt. Byddem hefyd yn hoffi cael ffotograffau yr ydych yn eu tynnu o'ch disgyblion yn cynnal gweithgareddau yn ystod yr Wythnos Ddŵr. Am ragor o wybodaeth, gweler ein hadnoddau Gweithredu.

Pynciau

Mae'r Wythnos Ddŵr yn adnodd hyblyg, fellwch gallwch ei theilwra ar eich cyfer chi a'ch ysgol.

Gallwch gynnal gweithgareddau:

- O fewn un pwnc (er enghraifft, daearyddiaeth, gwyddoniaeth)

- Ar draws nifer o bynciau (trawsgwricwlaidd)
- O fewn amser bugeiliol / Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd / ADCDF
- Fel diwrnod penodedig o weithgareddau

Sut fydd yr Wythnos Ddŵr yn fuddiol i'm hysgol?

I'ch disgyblion

- Mae'n annog pobl ifanc i ymwneud â materion a dyfeisio eu hymatebion eu hunain.
- Mae'n cefnogi datblygu sgiliau holi, dadansoddi a myfyrio.
- Mae'n datblygu llais disgyblion

I'ch Ysgol

- Mae'n cefnogi datblygu ethos ysgol ehangach
- Mae iddi'r potensial ar gyfer gweithrediad trawsgwricwlaidd neu drawswedd.

I'r gymuned ehangach

- Mae'n helpu i adeiladu cymuned ysgol fywiog a chysylltiedig.
- Gall disgyblion gynnwys rhieni, sefydliadau ieuenctid neu ffydd, ac ysgolion lleol eraill.